Cymunedau Digidol Cymru
Hyder Digidol, Iechyd a Lles

Digital Communities Wales
Digital Confidence, Health and Well-being

Darparwyd gan
Delivered by
cwmpas

Rhaglen Llywodraeth Cymru
Welsh Government Programme



# Canllaw hygyrchedd digidol

# Sut i ddefnyddio'r ddogfen hon

Mae'r adnoddau hyn wedi'u casglu ynghyd i'ch cefnogi ochr yn ochr â hyfforddiant Cymunedau Digidol Cymru: Hyder Digidol, Iechyd a Llesiant (CDC).

Rydyn ni wedi cynnwys tudalennau gwe yn y ddogfen hon sy'n cynnwys gwybodaeth ddefnyddiol i'ch helpu i gefnogi eraill. Rydyn ni wedi cynnwys y rhain fel dolenni yn y ddogfen hon. Cadwch lygad am y **symbol dolen pinc** y gallwch ei ddewis gyda'ch cyrchwr neu'ch bys i agor a gweld y ddolen.

Os ydych chi'n edrych ar adnodd sydd wedi'i brintio, naill ai teipiwch gyfeiriad y wefan i mewn i borwr gwe neu sganiwch y cod QR i agor y dudalen we.

# Sut i sganio cod QR

1. Agorwch eich ap cod QR ar eich dyfais. Ar lawer o ffonau clyfar modern, defnyddiwch eich camera.
2. Pwyntiwch y camera at y cod QR a gwnewch yn siŵr fod y cod i gyd yn y ffrâm.
3. Edrychwch ar eich sgrin i weld a oes dolen gwefan wedi ymddangos. Os oes, cyffyrddwch ag ef â'ch bys a bydd yn agor y wefan!



# Ynglŷn â hygyrchedd



Nid yw dyfeisiau clyfar erioed wedi bod yn haws i'w defnyddio diolch i hygyrchedd anhygoel y dechnoleg gyfredol.

Mae hyn yn ein helpu nid yn unig i fynd ar-lein ond gall olygu y gall ein dyfais fod yn arf defnyddiol yn ein bywydau all-lein hefyd.

Mae gan y mwyafrif o ddyfeisiau clyfar modern nodweddion hygyrchedd ymgorfforedig. Cadwch lygad am yr opsiwn yng ngosodiadau eich dyfais.

Mae rhai nodweddion hygyrchedd allweddol i gadw llygad amdanynt yn cynnwys:

- Rheolaeth Llais
- Chwyddo
- Darllenwyr Sgrin
- Deallusrwydd Artiffisial
- Apiau Hygyrchedd



# Hygyrchedd ar eich dyfais

Cyfeiriwch at y tudalennau canllaw canlynol am ragor o wybodaeth am hygyrchedd ar eich dyfais:

**Hygyrchedd Apple:**
**https://apple.co/4eEALgw**
Mae'r dudalen hon yn esbonio'r gwahanol nodweddion hygyrchedd sydd ar gael ar ddyfeisiau Apple.

SGANIWCH FI

**Hygyrchedd Android:**
**https://bit.ly/4gywkWl**
Mae'r dudalen hon yn esbonio'r gwahanol nodweddion hygyrchedd sydd ar gael ar ddyfeisiau Android.

SGANIWCH FI

Os nad oes gennych ddyfais Apple neu Android, efallai y byddwch yn dal i allu dod o hyd i gymorth ar gyfer deall nodweddion hygyrchedd ar eich dyfais.

Ewch i beiriant chwilio, a chwiliwch “Gosodiadau hygyrchedd ar fy...” a rhowch enw eich dyfais.



# Rheolaeth llais

Nid oes rhaid i ni ddysgu 'sgiliau technoleg' bob amser er mwyn defnyddio dyfais glyfar diolch i reolaeth llais. Trwy siarad â'r ddyfais, mae rheolaeth llais yn gadael i ni wneud galwadau, anfon negeseuon, chwilio gwybodaeth, agor apiau, defnyddio calendrau a chymryd nodiadau. I roi rheolaeth llais ar waith, rydych chi'n dweud ymadrodd, “Deffrwch,”. Gallai hyn fod yn “Hei Siri”, “Iawn Google” neu “Alexa” er enghraifft.

Bydd angen sefydlu rheolaeth llais yn newislen gosodiadau eich dyfais cyn y gallwch ei defnyddio.

# Sefydlu rheolaeth llais

Gellir sefydlu rheolaeth llais ar y mwyafrif o ddyfeisiau clyfar modern. Yn gyntaf, rhaid i chi wybod beth yw gwneuthuriad a model eich dyfais. Yna, gallwch edrych ar ganllaw ar-lein trwy fynd ar wefan peiriant chwilio, fel Google, a chwilio “Sut i sefydlu rheolaeth llais ar fy...”

Rydym wedi rhestru rhai gwefannau defnyddiol yma i'ch helpu i ddechrau:

- Siri ar iPhones Apple: **https://apple.co/3BsDfjy**
- Google Assistant ar ddyfeisiau Android: **https://bit.ly/4dlnmsv**

SGANIWCH FI

Siri

SGANIWCH FI

Google Assistant

# Darllenwyr sgrin

Offeryn hygyrchedd yw darllenydd sgrin sy'n darllen yn uchel bopeth rydych chi'n rhyngweithio ag ef ar eich dyfais. Er enghraifft, os ydych chi'n defnyddio'r nodwedd ar ffôn clyfar, os ydych chi'n cyffwrdd ag eicon ap, bydd enw'r ap yn cael ei ddarllen yn uchel.

SGANIWCH FI

Apple Voiceover:
**https://apple.co/3TRgE6J**

SGANIWCH FI

Android Talkback:
**https://bit.ly/3TRcQCp**

# Chwyddo

Gellir galluogi chwyddwydr neu swyddogaeth chwyddo ar lawer o ddyfeisiau clyfar modern. Mae hyn yn gweithio fel chwyddwydr rhyngweithiol ar eich sgrin i helpu i wneud i destun ymddangos yn fwy.

SGANIWCH FI

Apple Zoom:
**https://apple.co/3ZGT6W1**

SGANIWCH FI

Android Magnifier:
**https://bit.ly/4gNOao8**

# Apiau Hygyrchedd

Yn ogystal â datrysiadau mewnol ar gyfer hygyrchedd ar ddyfeisiau, mae yna apiau gan wahanol gwmnïau y gallwch eu lawrlwytho. Nid yw'r enghreifftiau canlynol yn hollgynhwysfawr ac nid ydym yn argymell un ap dros un arall. Sicrhewch eich bod yn defnyddio siop apiau swyddogol eich dyfais i lawrlwytho apiau. Efallai na fyddwch yn gallu cyrchu'r apiau hyn ar rai dyfeisiau.

**Seeing AI**
Datblygwr: Microsoft
Mae Seeing AI yn defnyddio camera eich dyfais ac yn disgrifio'r hyn y gall ei weld i gefnogi pobl sy'n byw ag amhariad ar eu golwg

**Lookout**
Datblygwr: Google
Mae Lookout yn defnyddio camera eich dyfais ac yn disgrifio'r hyn y gall ei weld i gefnogi pobl sy'n byw ag amhariad ar y golwg

**Live Transcribe**
Datblygwr: Google
Mae Live Transcribe yn arddangos lleferydd ar sgrin eich dyfeisiau i gefnogi rhywun sy'n fyddar neu sydd ag amhariad ar y clyw.

# Adnoddau pellach

Mae ein hyfforddiant a'n harweiniad wedi'u cynllunio i gefnogi eich dealltwriaeth gychwynnol am ffyrdd o wneud dyfeisiau'n fwy hygyrch. Edrychwch ar y rhestr isod ar gyfer sefydliadau allanol a allai roi arweiniad a chymorth arbenigol neu bwrpasol ar gyfer anghenion hygyrchedd:

AbilityNet **https://bit.ly/3TJFGo7**

Sight Cymru **https://bit.ly/3N80X7A**

RNID **https://bit.ly/4dq7Yev**

RNIB **https://bit.ly/3TQkuNk**

Stroke  Association **https://bit.ly/4eGU20M**

Wales Council for Deaf People **https://bit.ly/3zvFRwK**

British Deaf Association **https://bit.ly/3ByPJWS**

Centre of Sign Sight Sound **https://bit.ly/4dugzgm**

Deafblind UK **https://bit.ly/4eospJY**

# Mae hygyrchedd i bawb

Mae nodweddion hygyrchedd wedi'u hymgorffori mewn llawer o ddyfeisiau clyfar nawr. Mae ymgyfarwyddo ac amser i ddysgu yn bwysig i eraill ddatblygu eu sgiliau a'u hyder gan ddefnyddio'r offerynnau hyn.



Os oes angen rhagor o wybodaeth neu gymorth arnoch, cysylltwch â ni gan ddefnyddio'r manylion a restrir isod.

## Beth nesaf?

I ddysgu mwy am ein cefnogaeth, cysylltwch â ni:

https://www.digitalcommunities.gov.wales/cy/cysylltu-a-ni/

0300 111 5050

Dewch o hyd i ni ar

Mae Cymunedau Digidol Cymru: Hyder Digidol, Iechyd a Llesiant yn rhaglen gan Lywodraeth Cymru a ddarperir gan Cwmpas. Mae Cwmpas, a elwid gynt yn Ganolfan Cydweithredol Cymru, yn gymdeithas gofrestredig o dan Ddeddf Cymdeithasau Cydweithredol a Chymdeithasau Budd Cymunedol 2014, rhif 24287 R.